# Eisteddfod Gadeiriol Chwilog

# 23/01/27

## BARDDONIAETH

1. Cerdd Gaeth neu Rydd neu cyfres o gerddi heb fod dros 100 o linellau: 'Cychwyn' Gwobr: Cadair hardd a gwobr ariannol gwerth £50. (Y wobr yn rhoddedig er cof am Arthur Evans Perthi gan y teulu).
2. Englyn: 'Arwain neu Arweinydd' Gwobr: £15
3. Telyneg: 'Diosg' Gwobr £15
4. Cân Ddigrif: 'Yn Seiliedig Ar Unrhyw Hobi neu Alwedigaeth' Gwobr £15

## LLENYDDIAETH

5. Tlws yr Ifanc. Cystadleuaeth i rai dan 19 oed. Darn o ryddiaith greadigol ar ffurf Stori Fer, Ymson, Portread, Hunangofiant neu Darn o Farddoniaeth. Testun: Agored. Gwobr: Tlws a £25. (Y tlws i'w gadw am flwyddyn) yn rhoddedig gan Mari a'r diweddar Maldwyn Jones, Llwydiarth, Chwilog).
6. I bob oed. Stori Fer. Gwobr: £15.

## ADRAN Y DYSGWYR

7. Unawd neu Llefaru: Agored - Hunan Ddewisiad. Gwobrau: 1af £20; 2il £15; 3ydd £10.
8. Rhyddiaith Agored - Stori Fer Gwobrau: 1af £10; 2il £7.

Y cynnyrch llenyddol / arlunio i fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn **9 Ionawr 2027** gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd dan sêl ym mhob cystadleuaeth.

Dychwelir y cyfansoddiadau Llên a Barddoniaeth ar dderbyn amlen a chludiad.

Bydd hawl gan y pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch llên / barddoniaeth buddugol yn y papur bro lleol, Y Ffynnon.

YSGRIFENNYDD:

Gwyn Parry Williams, Rhoseithin, Chwilog, Pwllheli LL53 6TF

(01766) 810717